PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 39 | Medi 25, 2025 | 50c.

## Ysgolion pebyll y Palestiniaid




Gyda'u hysgolion wedi eu chwalu gan fomiau lluoedd arfog Israel, mae miloedd o blant bach Gaza yn cael addysg mewn pebyll. Sôn am hynny, gyda lluniau o'r ysgolion ar sgrin fawr, wnaeth Siân ap Gwynfor yng nghwrdd chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yng nghapel Pant–teg ger Felin–wen. Er iddynt golli anwyliaid, a dioddef o ddiffyg bwyd a thrawma seicolegol, mae'r ysgolion syml yma yn rhoi gobaith i'r plant. Cytunodd cynrychiolwyr yr eglwysi i bwyso ar Brif Weinidog Prydain a gwleidyddion eraill i fynnu cadoediad ar frys.

### Sut clywodd Siân am y pebyll?

'Bob dydd Sadwrn ers mis Hydref 2023, mae grŵp ohonom wedi dod at ein gilydd yn rheolaidd o dan faner Cyfeillion Palestina, Gorllewin Cymru i dystio ar y Clos Mawr yng Nghaerfyrddin. Grŵp ydynt sydd wedi bod yn ffrindiau a chefnogwyr i sefydliadau cymunedol ar y Lan Orllewinol o Balestina ers 10 mlynedd a mwy. Ers i ni symud i'r dref y llynedd rwy' wedi ymuno â nhw yn eu tystiolaeth. Yn ystod un o'r Sadyrnau yna dyma ni'n cwrdd â meddyg, o Gaza yn wreiddiol, sydd yn briod â merch o ardal Caerfyrddin ac yn byw y tu fa's i'r dref. Mae ei deulu yn dal i fyw yn Gaza. Maent ymhlith y ffoaduriaid sy'n byw mewn pebyll ac yn cael eu symud o hyd ac o hyd. Ofnaf na allaf enwi'r bobol ddewr hyn yn gyhoeddus gan fod perygl dial os daw'r awdurdodau yn Israel i wybod.'

### Cefnogaeth o Gymru

'Teulu'r meddyg, gyda'i gefnder yn flaenaf yn eu plith, sy'n cynnal ysgol mewn pabell i'r plant lle nad oes cyfleusterau addysgol ar gael oherwydd y bomio. Buom mewn cysylltiad tan yn ddiweddar gyda chydlynydd ysgol babell Sumud, ac wrth i'r adroddiad hwn fynd i'r wasg nid oes cysylltiad wedi bod ers diwrnodau. Ond fe wyddom y bydd y babell yn cael ei chodi, a'r plant yn cael eu galw at ei gilydd ble bynnag y byddant wedi ffoi iddo, a phryd bynnag y cânt ysbaid o'r erchylltra. Diolch i Dduw bod cynifer o garedigion yng Nghymru'n fodlon eu cefnogi.'



## Sefydlu ein gweinidog

*Dyma adroddiad o gyfarfod sefydlu'r Parchg Guto Llywelyn yn weinidog ar ofalaeth Capel Seion, Bethesda a Nasareth*

Heddiw, nodwyd moment wirioneddol hanesyddol ym mywyd ein heglwys a gofalaeth Capel Seion, Bethesda a Nasareth wrth i ni ddod ynghyd i sefydlu ein gweinidog yn ffurfiol yn ei swydd yn ein plith. Roedd y gwasanaeth, a oedd yn llawn dop o aelodau, ffrindiau, gweinidogion gwadd ac aelodau o'i gyn–eglwysi, yn adlewyrchu'r cynhesrwydd a'r cyffro a oedd yn amgylchynu'r achlysur arbennig hwn. Nid defod yn unig oedd hi, ond hefyd gŵyl o ffydd, cymdeithas a'r dyfodol yr ydym yn ei rannu gyda'n gilydd.



### Plethiad

Roedd y gwasanaeth ei hun yn llawn ystyr ac wedi'i blethu'n gain gydag emynau, gweddïau a darlleniadau a roddodd leisiau i'n diolchgarwch. Cyflwynodd y Parchg Gwyn Elfyn Jones y ddefod sefydlu yn feistrolgar a chyflwynodd faton yr ofalaeth newydd yn gelfydd i'w olynydd. Cymerodd gweinidogion o bell ac agos ran, gan gynrychioli'r berthynas deuluol ehangach o fewn yr eglwys a pharhad ein traddodiad cyffredin. Tynnodd eu geiriau sylw at gyfrifoldeb a llawenydd gweinidogaeth, a chadarnhaodd eu cefnogaeth alwad ein gweinidog mewn ysbryd undod a chefnogaeth.

### Rhinweddau

Yr hyn a ddisgleiriodd fwyaf oedd y gwerthfawrogiad o'i rinweddau personol. Yn ystod y cyflwyniadau, canmolwyd ei gryfder o gymeriad a'r awdurdod distaw a ddaw yn naturiol iddo yn ei waith. Soniodd llawer am ei gydymdeimlad dwfn â phobl, ei allu i gerdded ochr yn ochr â'r rhai sy'n wynebu heriau, a'i ysbryd

*parhad ar dudalen 2*

# Sefydlu ein gweinidog – *parhad*

cynnes a chyfeillgar. O dro i dro, nodwyd ei ddawn i gysylltu â phlant a phobl ifanc – dawn a fydd yn parhau i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf ac yn sicrhau dyfodol yr eglwys. Wrth i'r gynulleidfa wrando, roedd teimlad cryf o ddiolchgarwch cyfunol – nad pennod newydd i'r gweinidog yn unig oedd hon, ond i'r eglwys gyfan. Bydd ei arweinyddiaeth a'i bresenoldeb yn siapio ein haddoliad, ein cenhadaeth a'n cymdeithas mewn ffyrdd a fydd yn ein hannog i dyfu gyda'n gilydd mewn ffydd a gwasanaeth.

### Cyd-fwyta

Ni ddaeth y dathliadau i ben gyda'r gwasanaeth. Wedi'r ffurfioldebau, daeth y gynulleidfa at ei gilydd yn y festri i rannu te a bwffe ysgafn. Roedd yr amser hwn o gymdeithasu yr un mor bwysig â'r geiriau a lefarwyd yn y capel. Rhoddodd gyfle i bawb – o aelodau hir sefydlog i ffrindiau gwadd – gyfarfod, sgwrsio a mwynhau cwmni ei gilydd. I lawer, roedd yn gyfle nid yn unig i ailgysylltu â wynebau cyfarwydd ond hefyd i gyfarfod wynebau newydd a rannai ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Roedd yr awyrgylch yn llawn llawenydd, chwerthin a diolchgarwch dwfn.

### Erys yn hir

Nid yn aml y mae cynulleidfa'n cael y fraint o fod yn dyst i achlysur o'r fath, a bydd y diwrnod hwn yn aros yn y cof am amser maith i ddod. Atgoffodd y gwasanaeth a'r gymdeithas ni o gryfder ein cymuned a'r addewid sydd o'n blaenau. Wrth edrych ymlaen, gwneir hynny gyda hyder. Gwyddom y bydd dawn ein gweinidog am arwain, empathi ac annog yn ein tywys yn y blynyddoedd i ddod. Yn bwysicach fyth, gwyddom mai gyda'n gilydd – gweinidog a phobl – yr ydym yn dechrau ar daith ffydd gyffredin a fydd yn fendith nid yn unig i'n heglwys ond hefyd i'r gymuned ehangach.

Nid am sefydlu gweinidog yn unig oedd heddiw – ond am gadarnhau bywyd a thystiolaeth yr ofalaeth gyfan. Ac yn hynny, gallwn wir lawenhau.



# Hyfforddi – beth sy'n digwydd?

*Dyma ran olaf adroddiad Carwyn Siddall y Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu a draddodwyd yng nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn Nant Gwrtheyrn eleni.*

Mae sawl unigolyn yn cael eu cydnabod fel awdur y frawddeg, 'Dylai pawb ddysgu rhywbeth newydd pob dydd', ac rwy'n gobeithio, drwy ein sesiynau undydd amrywiol, ein bod yn cynnig cyfle i'r rhai sydd eisoes ar y maes, rannu o'u gwybodaeth a'u profiad, a dysgu a chanfod syniadau newydd oddi wrth ein gilydd.

### Diwrnod i arweinwyr

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd diwrnod i arweinwyr addoliad yn Aberystwyth, ac encil y gweinidogion yng Nghaerdydd, a gobeithir cynnal diwrnodau gweinidogion yn y Gogledd a'r De yn ystod yr Hydref. Alla i ddim pwysleisio cymaint o fendith yw'r dyddiau hyn, a charwn annog pawb sy'n derbyn gwahoddiad i'w mynychu, fanteisio ar y cyfle. Weithiau, yng nghanol prysurdeb ein hamrywiol weinidogaethau, gallwn roi dyddiau o'r math ar un ochr. Ond cofiwn fod Iesu hefyd yn neilltuo i'r mynydd i weddïo ac i fyfyrio. Awgrymwyd wrthyf gan un gweinidog nad oedd amser i ddod i'r digwyddiadau hyn oherwydd pwysau gwaith yn yr ofalaeth. Chwi weinidogion, arweinwyr, ac arweinwyr addoliad, gofalwch amdanoch eich hunain yn ogystal â'r praidd; a chwi eglwysi a gofalaethau, anogwch ein harweinwyr i geisio seibiannau, ac i beidio â theimlo eu bod yn amddifadu'r praidd wrth fynychu'r digwyddiadau hyn.

### Blagur newydd

Wrth i mi rannu hyn oll â chi, rwy'n gobeithio eich bod yn gweld tyfiant newydd, a blagur newydd ar bob un cangen, a'm mraint i yw galluogi'r canghennau hyn i dyfu. Wrth gwrs, nid gwaith hawdd yw hynny pob amser oherwydd mae mwy a mwy ohonynt yn ymddangos, a'r galw ar gynnydd. Ond carwn ddiolch i'r Panel Dysgu a Datblygu am eu cefnogaeth. Dyma banel o bedwar, pob un â chefndir academaidd, sy'n fy nghynorthwyo wrth ddatblygu modiwlau newydd, ac sydd, dan sêl bendith y Pwyllgor Gweinyddol, yn cymeradwyo ein myfyrwyr ar ein rhan. Carwn hefyd ddiolch i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Dyfrig Rees am ei gefnogaeth pob amser, a'i ofal ohonof fel aelod o'r staff, a phob dymuniad da iddo yn ei ymddeoliad. Diolch hefyd i'm cydweithwyr. Er nad ydw i yn Nhŷ John Penri yn aml, mae'r cydweithio rhyngom fel staff i sicrhau'r gwasanaeth gorau ym mhob agwedd o'n gwaith yn hyfryd.




### Bendith yr Ysbryd

Wrth ddirwyn fy adroddiad i ben, carwn wneud dwy apêl i bawb ohonoch; os oes gennych unrhyw syniadau am feysydd hyfforddiant, neu awydd dilyn hyfforddiant o unrhyw fath, boed hynny ar gyfer cymhwyster neu o ddiddordeb personol yn unig, peidiwch ag oedi i gysylltu â mi, neu fynnu sgwrs â mi yn ystod y cyfarfodydd hyn. Ac yn ail, yn union fel roeddwn yn nodi'r angen am olau haul a gwlith y glaw i'r gangen newydd dyfu, gweddïwch y bydd yr Arglwydd yn arweiniad inni wrth barhau â'r gwaith Dysgu a Datblygu, ac y bydd diferion gwlith ei Lân Ysbryd ar y cyfan. Mae arwyddion clir fod canghennau newydd yn tyfu, a'r blaguro yn amlwg. Onid ein braint fel Undeb yw sicrhau fod y blagur yn dwyn ffrwyth, a hynny er sicrhau pob clod a gogoniant i'w Enw.

Yr Adran Gydenwadol

MEDI 25 2025 RHIF 239

# Dathlu a diolch am 80 mlynedd o waith di-flino Cymorth Cristnogol yng Nghymru




Y gynulleidfa yn y Tabernacl



Rowan Williams yn darllen ei gerdd



Andrew Sully, Mari McNeill a Patrick Watt




Posteri ymgyrchu y degawdau olaf

Ar nos Fercher Medi 17 cafwyd noson arbennig yn dathlu 80 mlynedd o waith diflino Cymorth Cristnogol yn gweithredu dros gyfiawnder a thegwch ar gyfer holl drigolion ein byd. Braint oedd cael ymuno gyda ffrindiau o bob rhan o Gymru yn y Tabernacl, Yr Ais yng Nghaerdydd yng nghwmni gwirfoddolwyr, cefnogwyr, arweinwyr eglwysig, cynrychiolwyr o'r enwadau, gwleidyddion, cydweithwyr yn y sector dyngarol, ynghyd â Chyfarwyddwyr ac aelodau Bwrdd Ymddirdiedolwyr Cymorth Cristnogol.

Wedi cyfle i ymgasglu a sgwrsio dros baned cafwyd gair o groeso a gweddi gan weinidog yr eglwys, Rosa Hunt, cyn trosglwyddo'r awennau i Andrew Sully, Cadeirydd gwaith Cymorth Cristnogol yng Nghymru, ynghyd â Mari McNeill, pennaeth y gwaith yng Nghymru. Bu i nifer orymdeithio i mewn i'r capel yn cario byrddau placard, yn dangos posteri ymgyrchu Cymorth Cristnogol a ddefnyddiwyd yn ystod yr 80 mlynedd, a diddorol oedd gweld a chael ein hatgoffa o rai o'r sloganau pwerus hynny. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Elenid Jones a Mones Farah, yn cyfeirio at adnodau o Micha 6 a Rhufeiniaid 5.

Wedi gwylio cyfres o ffilmiau byr a chanu emyn, cafwyd sawl myfyrdod pwrpasol. Roedd y tri anerchiad - gan Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol, Patrick Watt, a gan Cadeirydd cenedlaethol yr elusen, sef Sarah Mullally, Esgob Llundain, ac hefyd gan Jane Hutt AS ar ran Llywodraeth Cymru i gyd yn afaelgar, yn ddiolchgar am yr hyn a gafwyd dros yr 80 mlynedd, ond hefyd yn cynnwys anogaeth heriol wrth ein hatgoffa am yr anghyfiawnder sy'n parhau yn ein byd ni heddiw.

Cafwyd cyfle hefyd i glywed cerdd bwrpasol Bryniau Caersalem, wedi ei gyfansoddi gan Rowan Williams ac eto cerdd Cymer fi gyda thi gan Grahame Davies, eto wedi ei gyfansoddi yn arbennig ar gyfer y dathliad. Roedd yn drawiadol iawn clywed cerdd Grahame yn cael ei ddarllen gan y bardd ei hun yn y Gymraeg, ac yna gan ddau o blant ifanc o ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd yn Saesneg.

Fel cynulleidfa, cawsom gyfle i ymuno yn y gwasanaeth trwy ddatgan yn llafar eiriau o ail-ymrwymiad, wedi eu paratoi gan Cynan Llwyd ar gyfer yr achlysur. Bu i arweinwyr yr enwadau sefyll gyda'i gilydd yn y blaen, tra bod Andrew a Mari yn ein harwain yn y datganiadau. Wedi'r geiriau hyn, cafwyd gweddi rymus ac angerddol gan Nan Wyn Powell-Davies mewn ymateb i'r datganiadau a wnaed.

Diolch am groeso arbennig y Tabernacl, ac am y trefniadau manwl ar gyfer yr achlysur. Cawsom ein hatgoffa bod codi llais yn ganolog i waith Cymorth Cristnogol, a bod cyfrifoldeb arnom ninnau i weithredu er lles cyfiawnder. Rhannwyd amlenni coch i bawb a oedd yn bresennol, a oedd yn cynnwys syniadau gweithredu a chyfrannu.

Heb os roedd yn dda cael bod yno, a braf oedd gweld llawr y capel yn orlawn, yn arwydd o'r parch a'r gwerthfawrogiad sydd gan gynifer ohonom at y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflawni ar ein rhan fel eglwysi gan Gymorth Cristnogol. Dymunwn fendith ac arweiniad clir iddynt eto am yr 80 mlynedd nesaf.

*Aled Davies*

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 28 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Annibynwyr Gogledd-orllewin Myrddin o gapel Blaen-y-coed; arweinydd Nicki Roderick

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 28 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Alwyn Daniels, Trefdraeth

# Sul Digartrefedd – Hydref 5

**Bob blwyddyn, mae Housing Justice Cymru yn cynnal Sul Digartrefedd ar y Sul cyn eu Diwrnod Digartrefedd, sef y Sul cyntaf ym mis Hydref.**

**Y thema ar gyfer eleni yw 'Câr dy gymydog'.**

Gobaith Housing Justice Cymru yw helpu eglwysi a chynulleidfaoedd i ddeall mwy am y problemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd drwy wahodd eglwysi i gynnal eu gwasanaeth Sul Digartrefedd eu hunain, naill ai ddechrau Hydref neu ar ddyddiad sy'n fwy cyfleus. Isod mae adnoddau amrywiol i helpu gyda hynny.

Mae Housing Justice Cymru yn gobeithio y bydd cynulleidfaoedd eglwysig, drwy gymryd amser i fyfyrio ar Sul Digartrefedd, yn ystyried beth allen nhw ei wneud yn eu cymunedau eu hunain i leddfu digartrefedd, dioddefaint a thlodi.

**Myfyrdod yn seiliedig ar Luc 17:5–6 gan Lewis Lennon**

Ydych chi erioed wedi cerdded heibio rhywun yn eistedd ar y palmant —
efallai wedi'i lapio mewn sach gysgu,
efallai'n dal cwpan papur —
ac wedi teimlo'r gymysgedd honno o emosiynau?
Tosturi. Euogrwydd. Anobaith.
Efallai hyd yn oed yr awydd i droi'ch golwg i ffwrdd.
Rwy'n gwybod fy mod i.
Ac yn y foment honno, mae'n hawdd teimlo'n annigonol.
Fel petai'n amhosib i ni wneud unrhyw wahaniaeth.

Dyna'n union sut oedd y disgyblion yn teimlo pan alwon nhw ar Iesu,
gan ofyn iddo, 'Cynydda ein ffydd!'

Atebodd Iesu, 'Petai'ch ffydd chi mor fach â hedyn mwstard, gallech chi ddweud wrth y goeden forwydden yma am gael ei chodi o'r ddaear wrth ei gwreiddiau a'i thaflu i'r môr, a byddai'n gwneud hynny!'

Rwy'n caru'r ffaith na dywedodd Iesu, 'Dewch yn ôl pan fydd gennych fwy o ffydd.'
Dywedodd, 'Tyrd â'r ychydig ffydd sydd gennyt, a gwylia beth alla i ei wneud gyda thi.'
Oherwydd mae ffydd fel hedyn mwstard yn fach iawn, ond mae'n fyw ac yn gallu tyfu.
A phan gaiff ei blannu yn nheyrnas Duw, mae'n tyfu'n gyflym.

Mae Salm 37 yn rhoi syniad i ni sut mae ffydd fel hedyn mwstard yn edrych yn ymarferol:
'Trystia'r ARGLWYDD, a gwna beth sy'n dda.
Setla i lawr yn y tir a mwynhau ei ffyddlondeb.
Ceisia ffafr yr ARGLWYDD bob amser,
a bydd e'n rhoi i ti bopeth rwyt ti eisiau.'

Ymddiried — a gwna ddaioni.
Dyna i gyd.
Nid 'datrys popeth'.
Nid 'cario pwysau'r argyfwng tai ar dy ysgwyddau'.
Jyst: ymddiried ynddo Ef — a gwneud rhywbeth.

Ac yma, mae thema Sul Digartrefedd yn siarad mor glir:
**Câr dy gymydog.**
Nid jyst y cymydog sy'n codi llaw arnat dros y ffens.
Ond y cymydog sy'n eistedd ar fainc yn y parc neu wrth yr arhosfan bysiau.
Y cymydog sy'n gorwedd o flaen drws siop mewn gwely cardbord.
Y cymydog sy'n teimlo'n anweledig.

Yn ei lyfr *Stories from the Street*, mae David Nixon yn dweud hyn mewn ffordd bwerus: 'Y bobl fregus yw pregethwyr gorau'r efengyl yn eu cymunedau eu hunain.'




Mae hynny'n golygu nad dim ond angen ein help y mae ein cymdogion ar yr ymylon — yn aml, maen nhw'n cario gwirionedd yr efengyl yn eu straeon eu hunain, yn ein hatgoffa am Iesu ei hun, a ddewisodd uniaethu â'r tlawd, yr alltud, y rhai a anghofiwyd gan gymdeithas.

Oherwydd dyma ddirgelwch y deyrnas:
pan fyddwn yn plannu hadau, Duw sy'n gwneud iddyn nhw dyfu.
Gall un sgwrs arwain at obaith.
Gall un pryd o fwyd arwain at greu cymuned.
Gall un weithred ddewr deithio ymhellach nag y gallwn ni ei freuddwydio.

Felly, efallai nad y cwestiwn i ni heddiw yw, 'Oes gennyf ddigon o ffydd?'
Efallai mai'r cwestiwn yw, 'Beth wna i â'r ychydig ffydd sydd gen i eisoes?'

**Gweddi**
Arglwydd, cyfaddefwn fod ein ffydd
yn teimlo'n wan ar adegau.
Ond rydym yn rhoi ein hedyn mwstard i Ti,
gan ymddiried ynot Ti i'w dyfu.
Dysg i ni weld ein cymdogion
fel yr wyt Ti yn eu gweld nhw —
i garu nid yn unig â geiriau
ond hefyd â gweithredoedd.
Cymer ein camau bach,
a defnyddia nhw i ddod â'th deyrnas yma ar y ddaear,
i bob cymydog sydd heb gartref,
a phob calon sy'n hiraethu am noddfa. Amen.

BETH ALL EICH EGLWYS EI WNEUD?
FFYRDD ERAILL O HELPU NEU GYMRYD RHAN

Diolch am fyfyrio ar sut y gall eich eglwys 'Garu eich cymydog' a lleddfu digartrefedd, tlodi a dioddefaint yn eich cymuned leol ar y Sul Digartrefedd hwn.

Bydd pob ardal yn wynebu heriau gwahanol ac mae'n bwysig cofio nad oes un ateb sy'n addas i bawb. Serch hynny, mae ymwybyddiaeth gynyddol fod atebion sy'n seiliedig ar y gymuned yn hanfodol i leihau digartrefedd yn ein plith. Mae cynllun Citadel Housing Justice yn enghraifft dda o hyn, ac mae chwilio ar y we yn rhoi llawer o dystiolaeth ymchwil sy'n dangos bod y dull hwn yn effeithiol.

**Felly, beth all eich cynulleidfa ei wneud?**
• Ystyriwch wirfoddoli mewn lloches nos leol, cegin gawl neu brosiect cymunedol fel Citadel. Mae'n debyg y bydd nifer o sefydliadau yn eich ardal yn chwilio am wirfoddolwyr, ac os na allwch ddod o hyd i un, a'ch bod yn credu fod yna angen yn lleol, a allai eich eglwys agor ei drysau i ddarparu bwyd neu wely i rywun sy'n ddigartref?
• Ystyriwch groesawu rhywun sy'n chwilio am loches ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i'ch ystafell sbâr. Mae Housing Justice Cymru yn cynnal Prosiectau Lletya ac maent bob amser yn chwilio

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Sul Digartrefedd*

*(parhad o dudalen 2)*

am westeiwyr newydd i agor eu cartrefi i gynnig llety.
• Ystyriwch rentu eich ystafell i rywun sydd newydd gael statws ffoadur am gyfnod o chwe mis drwy Brosiect Llety Ffoaduriaid Housing Justice Cymru.
• Cymerwch ran mewn digwyddiad her neu ddigwyddiad noddi gyda'ch ffrindiau, neu trefnwch gasgliad mewn ysgol i godi arian i elusen digartrefedd o'ch dewis.
• Rhowch rodd i elusen ddigartrefedd o'ch dewis.

**GWEDDI GAN PETER**
Cyn-aelod Staff Cyfiawnder Tai

Dad nefol a chreawdwr pawb a phopeth yn y byd,
deuwn atat heddiw i weddïo dros iechyd meddwl a lles
y rhai sy'n ddigartref ar strydoedd ein gwlad.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Fel Cristnogion cofiwn mai dy blant di ydym ni,
ac mai ninnau yw dwylo a thraed,
clustiau a llygaid dy Fab Iesu Grist,
a ddywedodd ar y mynydd:
'Gwyn eu byd y tlodion, canys eiddynt hwy yw teyrnas Duw.'

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Gweddïwn dros y rhai sydd allan ar y strydoedd,
y bydd iddynt dderbyn y gofal a'r cariad cywir
fel y cânt le i'w alw'n gartref.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Gweddïwn dros y rhai sy'n byw ar y strydoedd,
y bydd iddynt dderbyn y gefnogaeth briodol
er mwyn rhoi iddynt feddwl tawel a diogel.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Gweddïwn dros yr holl staff a'r gwirfoddolwyr
sy'n rhoi'n ddidwyll o'u hamser a'u hadnoddau
gan ddangos cariad, gofal a chefnogaeth i'r rhai sy'n ddigartref.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Yn olaf, gweddïwn dros bawb mewn awdurdod a grym,
y bydd iddynt wneud y penderfyniadau cywir
a ddaw â diwedd am byth ar y sefyllfa druenus lle mae pobl yn cysgu ar y stryd.

**Ymateb: Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi.**

Gweddïwn hyn oll trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

***Paratowyd yr adnoddau hyn yn Saesneg gan Housing Justice, a'u cyfieithu i'r Gymraeg gan Aled Davies. Am ragor o ddeunyddiau ar gyfer Sul Digartrefedd, ewch i'r wefan: https://housingjustice.org.uk/cymru***

# Credo Nicea – Sesiwn Pump – Yr Eglwys ac Undeb (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## De India

Yn ail, mae'r Credo yn delio ag ymrysonau sydd o gwmpas hyd heddiw. Lluniwyd y Credo yn ofalus gan Eglwys y bedwaredd ganrif er mwyn goresgyn heresïau a chynnig eglurder ar athrawiaeth Gristnogol, yn fwyaf arbennig ar natur Crist. Yn y cyd-destun presennol, lle mae gwahaniaethau diwinyddol yn dal i godi, mae'r Credo'n cynnig cyfeirnod er mwyn datrys anghydfod a chynnal cyfanrwydd athrawiaethol yn yr Eglwys.

Yn ogystal, cymhellir deialog a chydweithio ecwmenaidd ymhlith traddodiadau Cristnogol gwahanol gan Gredo Nicea. Wrth gadarnhau'r hyn a gredwn yn gyffredin, ond yn caniatáu amrywiaethau mewn athrawiaethau eilradd, mae'n cymell parch at ein gilydd a chydweithio rhwng gwahanol eglwysi. Yn ein cyfnod ni, daeth perthynas rhwng enwadau yn gynyddol bwysig, ac mae eglwysi'n wynebu heriau arwyddocaol o'r tu mewn ac o'r tu allan. Mae'r Credo yn cynnig iaith gyffredin ar gyfer deialog, a modd o hyrwyddo cymod yn y cyd-destun hwn. Yn ogystal, cynigir parhad hanesyddol gan Gredo Nicea, a chyswllt â'r Eglwys Fore. Drwy adrodd yr un geiriau â Christnogion ganrifoedd yn ôl caiff Cristnogion eu hatgoffa o'u lle yn stori ehangach yr iachawdwriaeth. Mae'r ymdeimlad hwn o barhad yn cryfhau rhwymau cymdeithas ymhlith y rhai sy'n credu ac yn atgyfnerthu eu hunaniaeth fel rhan o'r Eglwys fyd-eang ar draws y canrifoedd.

Yn olaf, deil Credo Nicea i fod yn berthnasol iawn parthed meithrin undeb yn yr Eglwys heddiw. Mae ei wirioneddau diwinyddol bythol, ei arwyddocâd hanesyddol a'i botensial ecwmenaidd yn offer anhepgor wrth hybu cynghanedd a chydweithio rhwng credinwyr ar draws ffiniau enwadol. Fel y gweddïodd Iesu am undeb yn Ioan 17, rydym ni fel Cristnogion yn dal i ffeindio'n ffordd drwy gymhlethdodau ein byd cyfnewidiol. Saif Credo Nicea fel arwyddbost o undeb, sy'n ein harwain yn ôl at wirioneddau hanfodol ein ffydd.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

1. Mae Cristnogion i gyd yn rhannu credoau creiddiol – beth yw'ch barn chi am y datganiad hwn? Beth feddyliwch chi yw'r credoau creiddiol?
2. Beth yw'r heriau arwyddocaol y mae'r Eglwys yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn eich cyd-destun chi? Sut mae Credo Nicea yn ymateb iddynt, yn eich barn chi?
3. Ydych chi'n credu fod eich eglwys chi yn gyfrwng i uno eich cymuned: pa gamau ymarferol y gallech eu cymryd gyda golwg ar y fath uno?

**Gweddi**

- Gweddïwch dros y Cymundeb Anglicanaidd ar draws y byd – efallai yr hoffech weddïo'n benodol dros unrhyw ddolenni esgobaethol sydd gennych neu dros eglwysi rydych yn bartneriaid â nhw.
- Gweddïwch dros yr holl gredinwyr yn eich cymuned chi – y bydd credoau creiddiol yn eu huno.

# WRTH Y LLYW #3



Fy ngorchwyl swyddogol gyntaf ym mis Medi oedd dweud gair bach yn Nhŷ John Penri wrth ffarwelio â'r Parchedig Dyfrig Rees. Yn ôl yr hen goel, roedd Dyfrig Sant yn genhadwr–bregethwr, ac yn drefnydd–arweinydd tan gamp. Chwip o sant ydoedd; sant yn magu saint. Wedi gyrfa hir a da, penderfynodd Dyfrig Sant ddianc i ynys Enlli; yno bu farw, ac yno bu'n gorwedd mewn hedd hyd nes i ryw esgob o Landaf – Gwrgan – benderfynu mai da fuasai cael gweddillion Dyfrig i'w gadeirlan newydd. Yn Llandaf, o 1120 tan y Diwygiad Protestannaidd, bu pen a braich Dyfrig Sant, y naill a'r llall yn tynnu pererinion ac fel mae'n digwydd, yn llenwi coffrau'r gadeirlan am flynyddoedd lawer.



### Pen a Braich

Byddwn yn gweld eisiau pen Dyfrig Rees: arweiniad call a doeth; cyfathrebu huawdl, coeth a thrawiadol; Dyfrig, yn barchus iawn o, a chan bawb. Gwelwn eisiau braich Dyfrig hefyd, ei barodrwydd i dorchi llewys trosom, a gyda ni: cyd–lawenhau, cyd–ofidio, cyd–weithio, cyd–dynnu, cyd–weinidogaethu. Nid ceiliog pen y domen mo hwn, ond un a fu'n sefyll gyfysgwydd â ni, yn cerdded yn gytgam â ni; nerth ei fraich yn gynhaliaeth – Dyfrig, a'i ffydd yn ffordd o fyw, ei gyffes yn gymwynas, ei gredo'n garedigrwydd.

Cafodd Dyfrig yn rhodd gan ei gyd–weithwyr yn Nhŷ John Penri, gasgliad o gyllyll coginio, bach, mawr a mwy, ac un peth yn gyffredin iddynt: roedd min arnynt.

### Hogi

Un o swyddogion pennaf Owain Glyndŵr oedd Cadwgan. Pan fyddai angen rhagor o filwyr, danfonid Cadwgan i'r ffeiriau a'r marchnadoedd i hel milwyr ato. Roedd ganddo ddull unigryw o wneud hynny. Yn lle siarad gyda phobl ac areithio'n wladgarol, safai'n dawel yn eu plith yn hogi ei fwyell fawr. Heb yr un gair, deallai pawb ei neges, a phan fyddai angen milwyr ar Owain, ei orchymyn oedd: 'Cadwgan! Hoga dy fwyell!' Prin fod gwell anogaeth i bob perchen ffydd: mae angen min ar ein crefydd. Mor dda fuasai tipyn o hogi ar ein crefydda: ein ffydd o'r herwydd yn ffordd o fyw; ein cyffes mewn cariad fel y cerddo ein credo.

### Dal eu tir

Cefais gyfle i ymweld â Chyfundebau Dinbych a Fflint (Dwyrain a Gorllewin) nos Fercher 17 Medi. Diolch i'r swyddogion oll, yn fwyaf arbennig am eu gwaith a'i gofal ar y noson: y Cadeirydd, Rhys Dafis a'r Parchedig Graham Floyd, yr Ysgrifenydd. Cyfundebau bychain yw'r rhain, ond dygn a'i dycnwch i'w ganmol. Mae'r eglwysi hyn fel y coed hynny a welir ar ben bryn, wedi tyfu'n gam yn y gwynt. Maen nhw'n dangos ôl y 'rhewynt oer', ond mae'r gwreiddiau'n wydn a dwfn. Maen nhw'n dal eu tir.

### Gwyrddni

Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghapel Green (105; tudalen 66 o'r Blwyddiadur): Gwyrdd: lliw'r môr; lliw 'pleidiol wyf i'm gwlad'; gwyrdd dolydd y borfa, llethr y llus a llwyni'r dail; lliw tyfiant, cynnydd, gobaith. Gwyrdd y blagur yn glasu perth a llwyn yw gwyrdd; y mynd a'r dod o dan y bondo: gwyrdd.

Roedd Kermit the frog ar Sesame Street yn cwyno'n aml: It's not easy being green. Roedd Kermit yn iawn, mae gwyrdd yn lliw anodd. Pam? Oherwydd gwyddom am gwymp anochel y dail, gwyddom pa mor eiddil yw'r briallu, gwyddom am heth a hirlwm gaeaf, gwyddom am bwysau'r barrug ar ein bywyd. Gwyddom am dorri blodau yn eu blagur. It's not easy being green oherwydd bod Gwyrdd Duw yn galw arnom i gerdded llwybrau duon y byd, a'n calon yn llawn o'r sicrwydd byrlymog mai anwiredd (fel pob gorwel arall) yw gorwel 'Dirywiad' neu 'Argyfwng'. Boed i bob eglwys leol fod yn Green: lliw hen frigau yn ymsythu; y lliw a dry'r awel oer yn fwynach, lliw'r gobaith eto am gyflawni gobeithion.

### Esgobyddiaeth ac Annibyniaeth

Y bore wedyn roeddwn ar drot i Gasnewydd: cyfle i gynrychioli'r Undeb yng Nghyfarfodydd Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru. Mawr ddiolch i'r Parchedig Ganon Richard Wood: unigolyn a benodwyd i groesawu a gofalu am ymwelwyr a chynrychiolwyr Cytûn ag eglwysi eraill. Datgysylltwyd Yr Eglwys yng Nghymru oddi wrth Eglwys Loegr yn 1920. Eiddo'r Eglwys yng Nghymru – 14,000 o eglwysi mewn dros 900 o blwyfi. Mae iddynt ffurflywodraeth cwbl wahanol i ni. Defnyddir y model esgobol Anglicanaidd o lywodraethu eglwysi: Corff Cynrychioliadol, Corff Llywodraethol a'r Pwyllgor Sefydlog. Wrth eistedd yn gwrando trafodaethau Corff Llywodraethol yr Eglwys honno sydd mor wahanol i ni, gwelais a chlywais bethau cyfarwydd ddigon:megis cardiau pleidleisio – esgobion: melyn; clerigwyr: glas; lleygwyr: gwyrdd. Dim cerdyn: dim pleidlais! Yn bwysicach na hyn oedd y cyfeirio cyson, yn arbennig felly yn y drafodaeth a fu yn sgil anerchiad Archesgob Cymru, Cherry Vann, at wrando ar yr eglwysi'n lleol: gwrando, a gweithredu ar yr hyn a glywid gan bobl ffydd yn eu cynefin. I ni, yr eglwys yw'r eglwys leol. Mae'r eglwys honno yn rhydd. Gall neb oruwchlywodraethu drosti, boed esgob, boed Gyfundeb ac yn sicr nid yr Undeb. Nid penrhyddid mo'r rhyddid hwn, ond rhyddid o dan y Gair dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Trwy gydol fy neuddydd gyda'r Eglwys yng Nghymru, methais ag ysgwyd ambell gwestiwn: ydy ein trefniadaeth enwadol bellach – Adran; Cyngor a Phwyllgor Gweinyddol yn codi o, ac yn gymorth i fywyd a thystiolaeth yr eglwys leol? Ydy'n trefniadaeth yn bodoli dim ond i drefnu'r drefniadaeth? Ai dyna sy'n esbonio'r dieithrwch rhwng yr eglwys leol a'r Undeb – 'Beth a wnelo'r Undeb â ni?'. Onid hynny wedyn sydd yn esbonio gwaeledd y Cyfundebau? A ydym efallai'n creu strwythurau a chodi pwyllgorau – eu pentyrru nhw wir – oherwydd bod yr eglwys leol yn wan; neu ... a yw'r eglwys leol yn wan oherwydd ein holl strwythurau a phwyllgorau? Ond, efallai mai fi sydd ddim yn dallt y dalltings. Mae hynny'n digwydd weithiau.

**Owain Llŷr Evans**

# Golygyddol

## Cyfathrebu

Fe fu Vikki a finnau am ychydig ddyddiau ar ddiwedd mis Awst yn ninas fawr Llundain. Byddwn yn hoff o fynd yno oherwydd yr amrywiaeth gweithgareddau a golygfeydd. Y mae bob amser bethau newydd i'w gweld. Ymhlith pethau eraill buom yn addoli yn Castle Street, edrych ar adeiladau mawreddog y ddinas o do 120 Fenchurch Street; Gyrcin, Y Shard, Walkie Talkie, San Steffan a'r London Eye yn llygadu'r ddinas ar lan yr Afon Tafwys. Buom yn talu gwrogaeth i Catrin Glyndŵr trwy ymweld â'r gofeb sydd iddi mewn cilfach ddinod yn Salters Court oddi ar Canon Street cyn mynd i gopa Bryn Briallu.



Un diwrnod aethom ar y Northen Line ddu i fyny i Camden. Cwmwd yw hwn lle mae cymysgfa ryfeddol o ddiwylliannau yn cyd–gyfarfod gan lenwi'r palmentydd gyda llif o bobl. Ceir arogleuon Murg Kari a mwg drwg yn sawru'r aer. Gwahoddir fforddolion i gyfrannu punt er mwyn meddwi'r 'pync' a chlywir llais




efengylydd yn galw ar y torfeydd i gredu yn Iesu. Hwn yw un o'r llefydd mwyaf unigryw ac amgen ei natur yng ngwledydd Prydain, fe gredaf.

### Camden Town

Wrth adael tywyllwch gorsaf danddaearol Camden i oleuni'r stryd uwchben cyfarchodd gŵr mawr o dras Affricanaidd fi yn llon. 'You've dropped something', meddai. Edrychais i lawr a dywedodd, 'It's your smile.' Wel, dyna un ffordd o dynnu sylw. Gweithio yr oedd i elusen sy'n ceisio atal pobl ifanc rhag cario cyllyll. Y mae trywanu yn broblem fawr yn Llundain a nifer gynyddol o ieuenctid yn cario cyllyll fel rhan o'u delwedd. Dangosodd y creithiau oedd ganddo ar ei wyneb o ganlyniad i ymosodiadau. Siaradai'r gŵr ifanc fel melin bupur, yn fân ac yn fuan, gydag acen gref a geirfa ei ddiwylliant a'i genhedlaeth. Yr oedd y gwaith a gyflawnai'r elusen yn rhagorol. Buom yn sgwrsio am rai munudau. Wrth wrando sylweddolais ynghanol y cwbl nad oeddwn ond yn deall hanner yr hyn a ddywedai ac ar ben hynny nid oedd ef ychwaith yn gyfarwydd â Saesneg oedd ag acen drom Gwynedd. George Bernard Shaw ddywedodd 'England and America are two countries separated by a common language'. Os gwir hynny am ddwy genedl, roedd yn wir am y sgwrs rhwng y gŵr ifanc a finnau yn Camden Town. Nid oedd bai ar yr un ohonom. Roedd y diffyg deall yn deillio o'r ffaith ein bod o ddiwylliannau a chefndir gwahanol.

### Annealladwy

Mor bwysig yw gallu cyfathrebu'n glir a mynegi ein hunan yn ddealladwy i eraill. Cwestiwn gyfyd heddiw yw a ydym ni fel Cristnogion Cymraeg ein hiaith yn cyfathrebu yn ddealladwy gyda phobl eraill o du allan i'n cylch Cristnogol, yn enwedig y genhedlaeth iau? Neu a ydym ni yn euog o greu ghetto Cristnogol caeedig sydd wedi datblygu ein hieithwedd a'n geirfa fewnol ein hunain? Ac o ganlyniad nid yw pobl yn deall yr hyn a ddywedwn.

### Dwy Her

Teimlaf fod o leiaf ddwy her ieithyddol yn codi ar hyn o bryd.

1. Nid yw geiriau a thermau Cristnogol yn ddealladwy i bobl nad ydynt yn Gristnogion. I'r gymdeithas seciwlar gyfoes y mae geiriau fel Efengyl, addoli, iachawdwriaeth, gras, pechod, Gwaredwr, sancteiddrwydd, duwioldeb, a.y.b. yn ddiystyr. Golyga hyn fod yn rhai inni esbonio ein hunain mewn dull symlach ac yna os bydd pobl yn ymateb i'r newyddion da rhaid eu haddysgu yn y ffydd. 'Gwenwch ddisgyblion' oedd gorchymyn yr Iesu. Felly, ar ôl i ni gredu ynddo - a chyn hynny mewn gwirionedd - y mae proses o addysgu yn digwydd.
2. Yr ail her yw bod yr iaith Gymraeg yn newid, fel mae wedi gwneud erioed. Ond efallai bod y newid yn digwydd yn gynt yn y cyfnod hwn nac y bu. Un elfen o hyn yw ei bod yn raddol yn cael ei Seisnigo. Mae hyn yn peri loes inni, ond rhaid wynebu'r her. Mae wedi mynd yn arfer cyffredin i ddefnyddio mwy a mwy o eiriau Saesneg. Problem dwyieithrwydd yw mai'r iaith fwyafrifol sy'n flaenaf. Ond ble mae'r ffin lle mae'r iaith Gymraeg yn peidio â bod gan fod cymaint o ddylanwadau Saesneg arni ? Y peth pwysig yw'r dystiolaeth Gristnogol, gwyddom hynny. Ond mae Duw wedi ein creu a'n mabwysiadu fel Cymry Cymraeg ac yn galw ar rai ohonom i dystio i'r diwylliant hwnnw yn bennaf. Mae'n sefyllfa ddyrys ac amlochrog.

So, mae rîli'n bryd i ni newid yn lingustically er mwyn dangos pa mor ffantastic yw Iesu. Mae yn berson cwbl rîli ymezing sydd wedi marw dros ein sins oherwydd ei fod yn ein lyfio ni gymaint. Mae hynny mor cŵl. Ond os bydd hyn yn hapno fe ddaw point lle we might as well do everything yn Saesneg. Because everyone understands English. Init.

Trafodwch!

**Alun Tudur**

O.N. Yn hyn i gyd rhaid cofio bod yr Ysbryd Glân ar waith yn cyflawni bwriad Duw yn ein plith.

**Bethlehem, Dyffryn Ceidrych**

**Oedfa Dathlu 225 mlynedd**
**1800 – 2025**

Bore Sul 28 Medi am 10.30 y bore.

Pregethwr gwadd –
Parchg Guto Prys ap Gwynfor.

Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn yn yr hen ysgoldy.

Croeso cynnes i bawb

**Eglwysi Alltwen a Soar Maesyrhaf**

Gwahoddir chwi gan yr Eglwysi uchod i ddathlu 60 mlynedd ordeinio y Parchg Gareth Morgan Jones i'r weinidogaeth.

Pregethir gan
y Parchg Owain Llŷr Evans,
Llywydd yr Undeb

Dydd Sul 12 Hydref
yn yr Alltwen am 2.30pm.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dau ffug feseia yn pregethu ar strydoedd Llundain

'Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei lafar' yw'r dywediad Cymraeg. Ond gall y tafod sy'n llefaru'r farn fod yn arf eithriadol o beryglus. Yn ôl Llyfr Jeremeia: 'Mae eu tafodau fel bwa wedi'i blygu i saethu celwyddau. Maen nhw wedi dod yn bwerus yn y wlad drwy fod yn anonest. Ac maen nhw wedi mynd o ddrwg i waeth!' (Jer 9: 3)

Dyna'r adnodau ddaeth i'm meddwl wrth wylio'r brotest fawr ar strydoedd Llundain ar y teledu – protest 'Unite the Kingdom', a drefnwyd gan Tommy Robinson, gydag Elon Musk fel 'gŵr gwadd' ar y sgrin fawr o America. Pwy yw'r ddau yma?

### Tommy Robinson

Arwr y dde eithafol a threfnydd y rali fawr ar 13 Medi. Ei enw iawn yw Stephen Yaxley–Lennon, 42 oed. Buodd yn y carchar bump o weithiau rhwng 2005 a 2025 am droseddau oedd yn cynnwys ymosod ar blisman a dirmyg llys am enllibio ffoadur 15 oed o Syria. Mae'n fethdalwr â dyled o £160,000 mewn treth incwm. Yn 2020 fe aeth i Rwsia, lle bu'n cwyno am ddiffyg rhyddid barn yn Ewrop, a chefnogi Vladimir Putin. Mae'n aelod o Advance UK, plaid newydd sydd i'r dde o Reform UK hyd yn oed! Dyma farn colofnydd ym mhapur newydd yr 'i' amdano: 'A nasty hooligan with convictions for assault, use of a false passport, contempt of court, mortgage fraud, stalking a journalist, and spreading lies about a refugee schoolboy.'

### Elon Musk



Dyma'r dyn mwyaf cyfoethog yn y byd, gyda ffortiwn o $400 biliwn. Elon Musk gafodd y cyfrifoldeb gan Donald Trump o dorri USAID, a sefydlwyd yn 1961 i helpu gwledydd mwyaf tlawd y byd i ddianc rhag tlodi, newyn a phob math o argyfwng arall. Ariannwyd cynlluniau i leddfu effaith clefydau fel HIV, malaria a TB mewn 120 o wledydd. Mae'r papur meddygol y *Lancet* yn rhagweld y bydd dros 14 miliwn o bobol, gan gynnwys 4.5 miliwn o blant, yn marw o ganlyniad i'r toriad mewn USAID.

### Corddi'r dorf

Dwy flynedd yn ôl fe wnaeth Musk brynu'r cyfrwng cymdeithasol Twitter, newid yr enw i X, a'i ddefnyddio i ledaenu daliadau eithafol. Fe wnaeth e' gorddi'r dorf fawr yn Llundain trwy eu hannog hwy i 'ymladd neu farw, yn wyneb trais a llofruddiaeth, a dinistr ffordd o fyw.' Cyhuddodd lywodraeth San Steffan o ganiatáu mewnfudo anferth, ac o 'fethu amddiffyn y cyhoedd, gan gynnwys plant sy'n cael eu treisio gan gangiau.' Fe wnaeth e hefyd gyhuddo'r BBC o fod yn rhan o'r broses o 'ddinistrio Prydain.' Rhaid oedd diddymu'r llywodraeth a chynnal etholiad ar frys, meddai.

### Ydych chi'n wrth–Gristnogol?

Peth arall wnaeth Musk oedd ymosod ar bobol sy'n 'woke' – sef pawb sy'n ymwybodol o anghyfiawnder a rhagfarn mewn cymdeithas, y rhai sy'n awyddus i roi chwarae teg i bawb sy'n dioddef oherwydd lliw eu croen, anabledd neu rywioldeb, ac sy'n poeni am newid hinsawdd. Dywedodd bod y fath bobol (e.e. fi fy hun) yn 'wrth–Gristnogol'. Onid yw defnyddio enw Crist i hyrwyddo'r fath agenda anwar yn ddigon i droi eich stumog, dwedwch? Daeth adnod arall, er o gyd–destun gwahanol, i'm cof: 'Oherwydd fe gyfyd gau feseiau a gau broffwydi, a rhoddant arwyddion mawr a rhyfeddodau nes arwain ar gyfeiliorn hyd yn oed yr etholedigion... ' (Mathew 24:24*)* Yn ôl Elon Musk mae Prydain ar groesffordd rhwng y tywyllwch a mawredd. Wn i ddim am y mawredd, ond os yw'r cyhoedd yn gwrando ar Robinson a Musk a'u tebyg, yna i lawr y ffordd i'r tywyllwch yr awn ni; tywyllwch casineb a gwrthdaro dinistriol. Duw a'n gwaredo ni a'r cenedlaethau a ddaw rhag hynny.

**Alun Lenny**

CYFUNDEB
DE-DDWYRAIN CYMRU

CYFLEOEDD
Y GYMUNED GRISTNOGOL
MEWN CENHADU



Anerchiad Llywydd
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
Y Parchedig Owain Llŷr Evans

Am 7.30 Nos Fercher
8 Hydref 2025

CAPEL MINNY STREET
CAERDYDD
CF24 4ER

GWASANAETH
COMISYNU



GWILYM JEFFS
Yn Arweinydd Tîm

ANGOR
GRANGETOWN

28 MEDI • 4PM • THE BAY CHURCH, CORPORATION RD

Dewch i ddathlu gyda ni!

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Sul y Cyfundeb
yng nghwmni



Gwenan Gibbard
Telynores a chantores

Capel yr Alltwen
Sul, 28 Medi, 2025 am 10.30

*Croeso cynnes i bawb*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*